



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 583 (Cy.55)

2007 No. 583 (W.55)

TIROEDD COMIN, CYMRU

COMMONS, WALES

Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti
Hawliau) (Cymru) 2007

The Commons (Severance of
Rights) (Wales) Order 2007

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae Adran 9 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006, y bernir, yn ôl adran 9(7) o'r Ddeddf honno, ei bod wedi dod i rym ar 28 Mehefin 2005, yn atal, yn ddarostyngedig i eithriadau, hollti hawl comin oddi wrth y tir y mae'r hawl honno'n gysylltiedig ag ef.

Section 9 of the Commons Act 2006, which is deemed, by section 9(7) of that Act, to have come into force on 28 June 2005, prevents, subject to exceptions, the severance of a right of common from the land to which it is attached.

Mae'r Gorchymyn hwn yn caniatáu hollti dros dro hawl comin i bori anifeiliaid oddi wrth y tir y mae'r hawl yn gysylltiedig ag ef drwy alluogi'r hawl i gael ei phrydlesu neu ei thrwyddedu i drydydd parti am ddim mwy na thair blynedd (*erthygl 2(1)(a)*) neu drwy brydlesu neu drwyddedu'r tir heb yr hawl honno (*erthygl 2(1)(b)*).

This Order permits the temporary severance of a right of common to graze animals from the land to which the right is attached by enabling the leasing or licensing of the right to a third party for no more than three years (*article 2(1)(a)*) or by a lease or licence of the land without the right (*article 2(1)(b)*).

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2007, ond mae'n effeithiol o 28 Mehefin 2005 ymlaen gyda'r canlyniad na fydd unrhyw brydles neu drwydded hawl comin i bori anifeiliaid a roddir ar ôl y dyddiad hwnnw am gyfnod o dair blynedd neu lai yn ddi-rym at y dibenion hynny yn rhinwedd adran 9(3) o'r Ddeddf.

This Order comes into force on 1 March 2007, but has effect as from 28 June 2005 so that any lease or licence of a right of common to graze animals granted after that date for a period of three years or less is not void for those purposes by virtue of section 9(3) of the Act.

2007 Rhif 583 (Cy.55)**2007 No. 583 (W.55)****TIROEDD COMIN, CYMRU****COMMONS, WALES****Gorchymyn Tiroedd Comin (Holhti Hawliau) (Cymru) 2007****The Commons (Severance of Rights) (Wales) Order 2007***Wedi'i wneud* 27 Chwefror 2007*Made* 27 February 2007*Yn dod i rym* 1 Mawrth 2007*Coming into force* 1 March 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 9(2) a (7), 59(1) a 61(1)(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 a pharagraff 2(1)(a) o Atodlen 1 iddi(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 9(2) and (7), 59(1) and 61(1)(1) of, and paragraph 2(1)(a) of Schedule 1 to, the Commons Act 2006(2), makes the following Order:

Enwi, cychwyn a chymhwys**Title, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tiroedd Comin (Holhti Hawliau) (Cymru) 2007.

1.-(1) The title of this Order is the Commons (Severance of Rights) (Wales) Order 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2007, ond mae'n effeithiol o 28 Mehefin 2005 ymlaen.

(2) This Order comes into force on 1 March 2007, but has effect as from 28 June 2005.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) This Order applies in relation to Wales.

Holhti dros dro hawl comin**Temporary severance of right of common**

2.-(1) Caniateir i hawl comin i bori anifeiliaid y mae adran 9(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn gymwys iddi gael ei holhti dros dro oddi wrth y tir y mae'r hawl honno'n gysylltiedig ag ef drwy brydlesu neu drwyddedu-

2.-(1) A right of common to graze animals to which section 9(1) of the Commons Act 2006 applies may be temporarily severed from the land to which it is attached by leasing or licensing-

(a) yr hawl comin ar ei phen ei hun, ar yr amod na fydd cyfnod y brydles neu'r drwydded yn hwy na thair blynedd; neu

(a) the right of common on its own, provided that the period of the lease or licence does not exceed three years; or

(b) y tir, neu ran o'r tir, y mae'r hawl comin yn gysylltiedig ag ef, heb yr hawl comin.

(b) the land, or part of the land, to which the right of common is attached, without the right of common.

(2) Pan fo hawl comin wedi'i holhti dros dro oddi wrth unrhyw dir yn unol â pharagraff (1)(b), ni fydd unrhyw effaith i unrhyw warediad o'r hawl comin a gedwir lle bo'r gwarediad yn cymryd lle adeg rhoi neu ar ôl rhoi'r brydles neu'r drwydded ar y tir, a chyn i'r brydles neu'r drwydded gael ei therfynu oni fydd yn cael ei gwaredu-

(2) Where a right of common is temporarily severed from any land pursuant to paragraph (1)(b), any disposal of the retained right of common on or after the grant of the lease or licence of the land and before its termination has no effect unless the disposal is made-

(1) Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") o ran Cymru.

(1) The National Assembly for Wales is the "appropriate National authority" in relation to Wales.

(2) 2006 p.26.

(2) 2006 c.26.

- (a) i granti'r brydles neu'r drwydded ar y tir; ac
- (b) am gyfnod sy'n dod i ben ddim mwy na thair blynedd ar ôl i'r brydles neu'r drwydded honno ddod i ben.

(3) Mae cyfeiriadau yn yr erthygl hon at hawl comin, mewn perthynas â hawl comin i bori mwy nag un anifail, yn cynnwys hawl i bori cyfran o nifer yr anifeiliaid y caniateir eu pori yn rhinwedd yr hawl comin honno.

- (a) to the grantee of the lease or licence of the land; and
- (b) for a period expiring not more than three years from the expiry of that lease or licence.

(3) References in this article to a right of common, in relation to a right of common to graze more than one animal, include a right to graze a proportion of the number of animals that may be grazed by virtue of that right of common.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

27 Chwefror 2007

27 February 2007

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2007 Rhif 583 (Cy.55)

TIROEDD COMIN, CYMRU

Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti
Hawliau) (Cymru) 2007

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 583 (W.55)

COMMONS, WALES

The Commons (Severance of
Rights) (Wales) Order 2007

© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W0024/03/07

ON